# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER 10FED EBRILL 2019 AM 10:30AM

YN BRESENNOL:

Cynghorydd D. Poole – Cadeirydd

Y Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau Cymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), Mrs B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), P. Marsden (Addysg a Chyflawniad), S. Morgan (Economi, Seilwaith a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) ac E. Stenner (Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), E. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai) ac M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau).

Hefyd yn bresennol:

S. Couzens (Prif Swyddog Tai), S. Harris (Pennaeth Dros Dro Gwella Busnes), J. Lougher (Rheolwr Chwaraeon a Datblygu), J. Reynolds (Rheolwr Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden), S. Richards (Pennaeth Addysg, Cynllunio a Strategaeth), M. Williams (Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Eiddo), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

### 2. DATGANIAD BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd C. Gordon fuddiant personol a rhagfarnllyd yn eitem 9 (Canolfan Hamdden Pontllan-fraith) a gadawodd y cyfarfod yn ystod ei ystyriaeth. Cofnodir y manylion gyda'r priod eitem.

### 3. CABINET – 27 MAWRTH 2019

PENDERFYNWYD bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27ain Chwefror 2019 wedi'u cymeradwyo a'u llofnodi fel cofnod cywir.

**MATERION AR Y PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL SYDD EU HANGEN**

## 4. CANOLFAN CAERFFILI AR GYFER PLANT AG ANGHENION YCHWANEGOL

Rhoddodd yr adroddiad fanylion i'r Cabinet am gynnig i ddarparu canolfan newydd ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol, i gymryd lle canolfan blant bresennol Caerffili yn Eneu'r-rglyn, Caerffili a cheisio cymeradwyaeth i fwrw ymlaen ag ymarfer ymgynghoriad ffurfiol o ran y datblygiad newydd posibl hwn.

Ym mis Hydref 2016 cymeradwyodd y Cabinet ddyraniad cyllid cyfalaf i adeiladu canolfan blant newydd fel rhan o'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2017/18. Er bod cynlluniau'n barod i ddatblygu, roedd trafodaethau pellach gyda chydweithwyr iechyd ynghylch yr angen i gysylltu hyn â'r gwaith ar gyfer yr hybiau integredig a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu diogelu cymaint â phosibl at y dyfodol, wedi oedi'r penderfyniad i fwrw ymlaen.

Nododd y Cabinet fod y Cyngor bellach mewn sefyllfa i fwrw ymlaen â'r datblygiad gan fod safle addas wedi'i nodi, sef llwyfandir isaf Ysgol Gyfun Pontllan-fraith sydd bellach dros ben. O ganlyniad, gofynnwyd i'r Cabinet nodi'r cyfle hwn a chaniatáu i swyddogion allweddol fwrw ymlaen ag ymarfer ymgynghori ffurfiol mewn perthynas â'r datblygiad newydd posibl hwn.

Ychwanegodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai fod y ganolfan blant bresennol yn cynnig gwasanaeth gwerthfawr iawn a bod yr adroddiad yn gyfle i ddatblygu ymhellach ar hyn, gan ddarparu lleoliad mwy addas i'r diben, mewn lleoliad mwy canolog, gyda darpariaeth wedi'i huwchraddio neu rai ychwanegol i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Cafwyd trafodaethau ynghylch y broses ymgynghori a cheisiwyd eglurhad ynghylch y partneriaid yr ymgynghorir â hwy. Esboniodd swyddogion yr ymgynghorir â'r holl Bartneriaid Statudol fel rhan o'r broses, a oedd yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a mudiadau gwirfoddol, yn ogystal â darparu gwybodaeth ar wefan y cyngor a'r cyfryngau cymdeithasol.

Cydnabu Aelodau'r Cabinet fod y ganolfan blant yn adnodd ardderchog a gwerthfawr ond bod angen rhywfaint o uwchraddio a moderneiddio a gofynwyd am ragor o wybodaeth am fanteision symud i safle newydd. Nododd swyddogion fod y Ganolfan bresennol wedi'i lleoli ym mhen isaf y cwm, ac ar waelod Bryn serth, a all fod yn broblemus o ran mynediad a theithio, y byddai'r lleoliad newydd yn fwy canolog yn y fwrdeistref ac yn lleihau problemau mynediad. Nodwyd nad yw'r pwll Hydro bellach yn addas i'r diben, a bod yna ystafelloedd therapi cyfyngedig, a byddai'r ganolfan newydd yn galluogi defnyddwyr i gael mynediad i safle mwy modern, gan gynnig amrywiaeth ehangach o wasanaethau.

Cafwyd trafodaethau ynghylch y cyllid ychwanegol o £900 mil, y ceisiwyd ei gael gan Lywodraeth Cymru (LlC). Rhoddwyd sicrwydd i'r Cabinet y bydd y £3.1 miliwn, sydd wedi'i ddyrannu i'r prosiect, yn darparu canolfan blant sy'n addas i'r diben, fodd bynnag bydd cyllid ychwanegol yn sicrhau diogelu at y dyfodol. Cysylltwyd â LlC, gyda chymorth Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, i wneud cais am arian ychwanegol o £900 mil, a darparwyd gwybodaeth bellach hefyd, ond mae ymateb dal i ddod ar hyn o bryd. Nododd y Cabinet fod yr ymgynghoriad yn cael ei gynnig am gyfnod o 12 wythnos ac mae swyddogion yn hyderus y bydd Llywodraeth Cymru wedi darparu ymateb erbyn hynny.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo argymhellion yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog, y cytunir bod y Swyddogion yn bwrw ymlaen ag ymarfer ymgynghori ffurfiol mewn perthynas â'r datblygiad newydd posibl hwn.

## 5. ADRODDIAD CYNNYDD – AILDDATBLYGIAD PRESWYL AR SAFLE'R CYN-GANOLFAN DDINESIG, PONTLLAN-FRAITH

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad ar gynnydd y gwaith arfaethedig i ailddatblygu safle'r hen Ganolfan Ddinesig ym Mhontllan-fraith, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar 12fed Mawrth 2019.

Yn dilyn y penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar 3ydd Hydref 2018, mae'r gwaith cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl ar safle'r hen Ganolfan Ddinesig ym Mhontllan-fraith wedi mynd rhagddo ar y cyd â'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, Pobl.

Mae'r cynigion amlinellol yn cydymffurfio â phenderfyniad y Cabinet, i'r graddau y maent yn seiliedig ar fodel y Garden Village, ac yn cynnwys cyfrannau lled-gyfartal o rentu cymdeithasol, rhanberchenogaeth a gwerthu ar y farchnad a bydd tua dwy ran o dair o'r datblygiad yn cael ei ddosbarthu fel 'fforddiadwy'.

Er mai gwaith ar y gweill yw'r uwchgynllunio hyd yma, mae'n rhoi sicrwydd bod y prosiect yn cael ei ddatblygu yn unol â'r cyfarwyddyd a roddir gan y Cabinet.

Gyda chymeradwyaeth ymlaen llaw ar ran yr arweinydd, gwahoddwyd Mrs Harmer, preswylydd lleol ac wyres Syr Harold Finch, y cyn AS, i siarad mewn perthynas â'r eitem hon. Rhoddodd Mrs Harmer gefndir manwl i'r Cabinet ar y parc coffa, a chododd bryderon am gynefin y parc, y dolydd â statws Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) gwarchodedig, rhywogaethau adar a bywyd gwyllt lleol a phrin o fewn coetiroedd a gwlyptiroedd y safle a'r posibilrwydd o golli treftadaeth naturiol yr ardal. Yn ogystal, mynegodd Mrs Harmer bryder arbennig ynghylch y bwriad i symud y garreg goffa, y mae gan y Cyngor ddyletswydd i'w gwarchod a'i chynnal.

Amlinellodd swyddogion fod trafodaethau wedi'u cynnal yn y gorffennol gyda Mrs Harmer lle rhoddwyd sylw i nifer o bryderon.

Gofynnwyd i'r Cabinet nodi nad oes cyfamod cyfreithiol ar gael a fyddai'n atal datblygu'r tir ar sail yr ôl-troed arfaethedig a rhoddwyd sicrwydd y byddai'r prif gynlluniau ar gyfer y safle datblygu tai yn aros o fewn ôl troed safle blaenorol Swyddfa’r Cyngor a’r maes parcio, a oedd yn cynnwys man glaswelltog yng nghefn y llain. Fodd bynnag, cadarnhawyd nad yw'r tir i'r gogledd o'r safle, gan gynnwys y pwll, coetir a gweirgloddiau, yn rhan o'r ôl troed ar gyfer y datblygiad. Yn ogystal, eglurodd swyddogion fod cynnig wedi'i wneud i symud y garreg goffa, ynghyd â chapsiwl amser i'r fynedfa newydd i'r parc, gan wneud y gofeb yn fwy amlwg.

Wrth egluro diben yr adroddiad, a chynnig y safle, cynigiodd yr Arweinydd sicrwydd i Mrs Harmer y byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal rhyngddi hi a swyddogion y cyngor, yn ystod cam y cais cynllunio, lle y byddai ystyriaeth bellach yn cael ei roi ar gyfer cynllun y safle, ond mae'r adroddiad ar hyn o bryd yn amlinellu, mewn egwyddor, bod cyfran o'r safle yn cael ei neilltuo i Gartrefi Caerffili fel tai cyngor.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn Adroddiad y Swyddog:

i) Bod cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi;

ii) Bod y cynnig i drosglwyddo elfen gymdeithasol y datblygiad hwn i Gartrefi Caerffili, gyda'r gost brynu yn cael ei gynnwys o'r Cyfrif Refeniw Tai, yn cael ei gymeradwyo.

## 6. GWELLIANNAU I'R YSTAFELL FFITRWYDD YNG NGHANOLFAN HAMDDEN TRECELYN

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer dyrannu arian untro ar gyfer gwaith gwella i'r ystafell ffitrwydd yng Nghanolfan Hamdden Trecelyn.

Ym mis Tachwedd 2018, cymeradwyodd y Cabinet Strategaeth Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden Egnïol yr Awdurdod 2019-2029, sy'n nodi diben a chyfeiriad i'r dyfodol ar gyfer darparu chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili.

Mae Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egnïol y Cyngor yn disgrifio dros 500 o wahanol fannau chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar draws y fwrdeistref sirol, gan gynnwys 10 canolfan hamdden gyda Chanolfan Hamdden Trecelyn yn cael ei nodi fel un o bedwar cyfleuster strategol.

Nodwyd bod ffrwd incwm allweddol yn cael ei pheryglu yng Nghanolfan Hamdden Trecelyn oherwydd diffyg buddsoddiad a hen gyfarpar ac o ganlyniad, nodwyd cyfle i ddatblygu a gwella'r ddarpariaeth bresennol yn sylweddol drwy ddatblygu a gwella'r ddarpariaeth bresennol yn sylweddol trwy drawsnewid y cyrtiau sboncen nad yw’n cael eu defnyddio ddigon.

Cwestiynodd Aelod o'r Cabinet y defnydd o'r cyrtiau sboncen fel rhan o'r cynnig, ond eglurodd swyddogion fod gostyngiad sylweddol wedi bod yn y nifer sy'n ymgymryd â chwaraeon raced, a chynnydd yn y nifer sy'n cymryd rhan mewn ymarfer grŵp, ac o ganlyniad, teimlwyd bod defnydd y gofod hwn ar gyfer gweithgareddau eraill yn diwallu anghenion, ac yn cynyddu cyfle, cyfranogiad a defnyddwyr.

Trafodwyd y Cynllun Atgyfeirio Cenedlaethol ar gyfer Ymarfer Corff a nodwyd, er nad yw hyn yn rhywbeth sydd wedi'i hwyluso yng Nghanolfan Hamdden Trecelyn ar hyn o bryd, y gallai fod yn rhywbeth y gellir darparu ar ei gyfer dros amser. Fodd bynnag, gobeithir y gall gwaith atal gael ei wneud drwy'r prosiect, ynghyd â gweithio mewn partneriaeth â'r ysgol gyfagos i annog mwy o bobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau a ffitrwydd, gan felly leihau'r angen am y Cynllun Atgyfeirio Cenedlaethol ar gyfer Ymarfer Corff yn y dyfodol.

Codwyd cwestiynau ynghylch y ddarpariaeth bresennol o fannau parcio ceir yn y Ganolfan Hamdden ac a oes lle i ddefnyddio rhywfaint o'r lle yn yr Ysgol. Cadarnhaodd swyddogion fod trafodaethau ar y gweill gyda'r Ysgol i ddefnyddio nifer o gyfleusterau, gan gynnwys tir o fewn yr ysgol ar gyfer parcio ceir.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo argymhellion yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

Penderfynwyd, am y rhesymau a amlinellir yn Adroddiad y Swyddogion, am fuddsoddiad untro o £550 mil i gefnogi gwella cyfleusterau, datblygiadau, a phrynu offer yn yr ystafell ffitrwydd yng Nghanolfan Hamdden Trecelyn i gael ei gymeradwyo; ac i’w ariannu o'r ffynonellau canlynol :

- £253 mil o'r gyllideb cyfalaf Rheoli Asedau Corfforaethol;
- £92 mil o gyllid cyfalaf nas defnyddiwyd a ddyrannwyd yn flaenorol ar gyfer gwaith brys yng Nghanolfan Hamdden Caerffili;
- £205 mil o’r ad-daliad untro a dderbyniwyd gan CThEM mewn perthynas ag eithriad TAW ar gyflenwi gwasanaethau chwaraeon (fel yr adroddwyd i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 19eg Medi 2018).

## 7. GRANTIAU HYBIAU CYMUNEDOL LLYWODRAETH CYMRU 2019/20

Rhoddodd yr adroddiad fanylion am gais yr awdurdod i Lywodraeth Cymru am Grantiau Hybiau Cymunedol, i ddatblygu Canolfan Athletau Gymunedol yn Ysgol Gynradd Rhiw-Syr-Dafydd ac ar y cyd â Choleg Gwent i ddarparu Hyb Addysg Rhagoriaeth mewn Chwaraeon Cymunedol (gosod cae amlddefnydd 3G bob tywydd gyda llifoleuadau) ar safle Ysgol Gyfun Gymunedol Rhisga, a cheisio cymeradwyaeth i symud ymlaen i gaffael ac adeiladu ar unwaith, os cymeradwyir yr achosion busnes a chytuno ar yr arian.

Ar ddiwedd Tachwedd 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Grant Hybiau Cymunedol o £15 miliwn. Roedd y grant hwn ar gael i bob Awdurdod Lleol a sefydliad Addysg Bellach trwy broses o wneud cais.

Nodwyd mai prif ddiben Grant Hybiau Cymunedol Llywodraeth Cymru yw defnyddio buddsoddiad cyfalaf i hwyluso defnydd y gymuned o asedau addysgol. Gellir defnyddio'r grant hwn i addasu asedau dan sylw; neu greu gofod addas at y diben ar gyfer y gymuned. Mae hyn yn unol ag ymrwymiad 'Ffyniant i Bawb' Llywodraeth Cymru i gyflwyno Canolfannau Dysgu Cymunedol, sy'n darparu gwasanaethau estynedig gyda gofal plant, cymorth i rieni, dysgu fel teulu a mynediad cymunedol at gyfleusterau a adeiladwyd o amgylch y diwrnod ysgol a chreu hybiau cymunedol.

Cyflwynwyd dau achos busnes i Lywodraeth Cymru i gael mynediad i'r grant hwn a fyddai, o’u cefnogi, yn darparu 100% o gyllid ar gyfer adeiladu Cyfleuster Athletau ar gaeau'r ysgol yn Ysgol Gynradd Rhiw-Syr-Dafydd, a swm y cais hwn yw £755 mil a;
Datblygu Hyb Addysg Rhagoriaeth mewn Chwaraeon Cymunedol (gosod llain amlddefnydd o 3G i bob tywydd gyda goleuadau llifogydd) ar safle Ysgol Gyfun Gymunedol Rhisga. Cyflwynwyd y cais hwn gan Goleg Gwent mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd y prosiect ar safle'r ysgol ac yn cael ei gaffael a'i adeiladu gan yr awdurdod. Bydd y cyfleuster 3G yn ateb gofynion y corff llywodraethu rygbi a phêl-droed ill dau. Swm y cais hwn yw £900 mil.

Nodwyd y bydd y cyfleusterau hyn yn mynd i'r afael â'r bwlch yn y ddarpariaeth chwaraeon yn yr ardaloedd hyn a bydd yn gyfle i ddatblygu gweithgareddau hamdden a chwaraeon cystadleuol gyda'n clybiau lleol ac yn cyd-fynd â’r Strategaeth Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden Egnïol 2019-2029, Amcanion Lles Caerffili 2018 i 2023 a Strategaeth Cyrhaeddiad Addysgol Caerffili.

Gofynnwyd i'r Cabinet i hefyd nodi bod Llywodraeth Cymru, ers cyhoeddi'r adroddiad, wedi cymeradwyo'r cais am y Cyfleuster Athletau £755 mil yn Ysgol Gynradd Rhiw-Syr-Dafydd. Mae Cytundeb Defnydd Cymunedol wedi'i ddatblygu a fydd yn galluogi clybiau rhedeg ac athletau lleol i ddefnyddio'r cyfleusterau. Nodwyd, fodd bynnag, fod y cais i ddatblygu Hyb Addysg Rhagoriaeth mewn Chwaraeon Cymunedol ar restr wrth gefn ar hyn o bryd, a bod gwaith yn mynd rhagddo i benderfynu sut y bwriedir bwrw ymlaen â hyn.

Roedd y Cabinet yn falch o nodi'r adroddiad a'r wybodaeth ddiweddaraf a gofynnwyd am ragor o wybodaeth am y Cyfleuster Athletau, sydd wedi'i ddynodi'n drac hyfforddi. Esboniodd swyddogion y bydd y safle hwn yn gwbl addas i'r diben ar gyfer hyfforddiant a chystadlaethau iau; fodd bynnag, ni fydd y seilwaith cyfleusterau gofynnol yn cynnal uwch ddigwyddiadau cystadleuol, sy'n gofyn am standiau a llety i wylwyr.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn Adroddiad y Swyddog:

i) i gymeradwyo’r cynnig i sefydlu Cyfleuster Athletau’r 21ain Ganrif ar safle Ysgol Gynradd Rhiw-Syr-Dafydd, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a dyrannu cyllid o £755 mil (100% wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru)

;

ii) i gymeradwyo’r cynnig i ddatblygu Hyb Addysg Rhagoriaeth mewn Chwaraeon Cymunedol (gosod llain amlddefnydd o 3G i bob tywydd gyda goleuadau llifogydd) ar safle Ysgol Gyfun Gymunedol Rhisga, mewn partneriaeth â Choleg Gwent, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a'r dyraniad o £900 mil (100% sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru);

iii) yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, y dylid cytuno i swyddogion fynd ymlaen i gaffael ac adeiladu a chytuno i sefydlu cyfleuster wedi'i glustnodi wrth gefn yn rhan Addysg cyfrifon y Cyngor ar gyfer atgyweiriadau cynnal a chadw mawr ac yn y pen draw adnewyddu elfennau gydol oes sefydlog.

## 8. RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF AC ADDYSG LLYWODRAETH CYMRU - LLAIN 3G AMLDDEFNYDD POB TYWYDD YN YSGOL GYFUN COED DUON

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad i'r Aelodau ar y cae 3G amlddefnydd pob tywydd yn Ysgol Gyfun Coed Duon a cheisiodd gytundeb i sefydlu i sefydlu cyfleuster wedi'i glustnodi wrth gefn yn rhan Addysg cyfrifon y Cyngor, ar gyfer atgyweiriadau cynnal a chadw mawr ac yn y pen draw adnewyddu elfennau gydol oes sefydlog. Yn ogystal, rhoddodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ac Addysg Band B mewn perthynas ag Ysgol Arbennig Cae’r Drindod.

Nodwyd bod y Cyngor, drwy reoli cyllid a phrosiectau'n effeithiol o ran y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ac Addysg Band A, wedi nodi tanwariant y cytunodd yr Aelodau i'w glustnodi ar gyfer cae 3G amlddefnydd yn Ysgol Gyfun Coed Duon a gwaith ailfodelu yn Ysgol Arbennig Cae’r Drindod.

Cytunodd Llywodraeth Cymru ar yr achos busnes dros gyfleuster Ysgol Gyfun Coed Duon ym mis Hydref 2018. Disgwylir i'r cynllun gael ei gwblhau ar ddechrau tymor yr Haf 2019.

Mae Cytundeb Defnydd Cymunedol wedi cael ei lofnodi gan Ysgol Gyfun Coed Duon i sicrhau'r defnydd a'r cysylltiad gorau ar y safle. Bydd hyn yn cynhyrchu incwm i ddarparu cynaliadwyedd a darparu refeniw i gynnal y cae 3G amlddefnydd pob tywydd yn y tymor hirach.

Nodwyd bod yr achos busnes ar gyfer ailfodelu Ysgol Arbennig Cae’r Drindod wedi'i gytuno gan LlC ym mis Tachwedd 2018. Sefydlwyd gweithgor i sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflawni'n effeithiol ac yn effeithlon. Cynhelir y prosiect mewn camau hylaw gan y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei wneud gyda'r disgyblion yn eu lle neu yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae blaenoriaeth gyntaf y cynllun yn ymwneud â'r ystafell ddosbarth ychwanegol er mwyn gallu mynd i'r afael â'r galw cynyddol ar yr ysgol.

Roedd y Cabinet yn falch o nodi'r cynnydd yn yr adroddiad ac wedi gofyn am sicrwydd y byddai digon o arian ar gael ar gyfer y llain 3G yn Ysgol Gyfun Coed Duon i'w chynnal a'i hadnewyddu lle bo angen. Eglurodd swyddogion y rhagamcanwyd y byddai'r cyfle i greu incwm yn rhoi digon o refeniw i gynnal y llain 3G a’i ailosod mewn 12 mlynedd, yn ogystal â refeniw ychwanegol.

Cwestiynodd Aelod y gwahaniaeth rhwng y llain 3G, a weithredwyd yn Ysgol Gyfun Coed Duon, a'r ddarpariaeth bresennol yn yr ardal. Eglurodd swyddogion fod nifer o wahaniaethau technegol rhwng y ddau, fodd bynnag mae'r llain 3G diweddaraf yn ddarpariaeth amlddefnydd, sy'n golygu bod modd chwarae rygbi a phêl-droed ar lefel gystadleuol.

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch y gwelliannau i'w gwneud yn Ysgol Arbennig Cae’r Drindod ac roedd y Cabinet yn falch o nodi'r cynigion, a fyddai'n cael effaith sylweddol ar y gwaith sy'n cael ei wneud eisoes yn yr ysgol.

Yn olaf, mynegodd y Cabinet eu diolch i'r Pennaeth Addysg, Cynllunio a Strategaeth a'i thîm am gyflwyno Rhaglen Band A yn rhagorol a chynhyrchu tanwariant, sydd wedi galluogi'r gwelliannau hyn i gael eu gwneud mewn mannau eraill.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo argymhellion yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog i wneud y canlynol:-

(i) Cytuno i sefydlu cyfleuster wedi'i glustnodi wrth gefn yn rhan Addysg cyfrifon y Cyngor ar gyfer atgyweiriadau cynnal a chadw mawr ac, yn y pen draw, i adnewyddu elfennau gydol oes sefydlog y llain 3G amlddefnydd bob tywydd yn Ysgol Gyfun Coed Duon;

(ii) Nodi'r cynnydd mewn perthynas â'r buddsoddiad yn Ysgol Arbennig Cae’r Drindod.

## 9. CANOLFAN HAMDDEN PONTLLAN-FRAITH

Datganodd y Cynghorydd C. Gordon fuddiant personol a rhagfarnllyd yn yr eitem hon fel defnyddiwr gwasanaeth y Ganolfan Hamdden a gadawodd y cyfarfod cyn i'r eitem gael ei hystyried.

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd ar 26ain Mawrth 2019, yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gau Canolfan Hamdden Pontllan-fraith.

Nodwyd bod y Cabinet, ar 28ain Mawrth 2018 wedi cytuno i ohirio'r penderfyniad blaenorol i gau Canolfan Hamdden Pontllanfraith ar 13eg Rhagfyr 2017 ac ystyried dyfodol Canolfan Hamdden Pontllan-fraith yn ddiweddarach yn 2018 ar ôl llunio a'i mabwysiadu Strategaeth Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden Egnïol yr Awdurdod 2019-2029.

Ar 14eg Tachwedd 2018 cymeradwyodd y Cabinet Strategaeth Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden Egnïol yr Awdurdod 2019-2029 (y Strategaeth) ar ôl i'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd argymell bod y strategaeth yn cael ei mabwysiadu.

Amlygodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth fod Strategaeth y Cyngor yn amlinellu diben a chyfeiriad ar gyfer darparu chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol yn y dyfodol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili ac mae'n sefydlu'r egwyddorion a'r weledigaeth allweddol a fydd yn llywio penderfyniadau a chamau gweithredu yn y dyfodol.

Sicrhawyd yr Aelodau bod y Cyngor yn gwerthfawrogi'r cyfleusterau chwaraeon a hamdden yn yr ardal, ond mae gan Gaerffili fwy o ganolfannau hamdden nag unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru, ac ni allwn barhau i wasgaru ein hadnoddau ar draws hen adeiladau a chyfleusterau. Yn ogystal, nodwyd nad oedd Canolfan Hamdden Pontllan-fraith yn un o'r 4 safle strategol a nodwyd yn y Strategaeth ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol ac, ar ôl i'r ysgol gyfun gyfagos cau, mae wedi mynd yn ddrutach i'w rhedeg. Mae effeithiau cau ar ddefnyddwyr wedi cael eu hystyried ac mae darpariaeth amgen helaeth ar gael fel yr amlinellir yn adroddiad y swyddogion. Felly, nodwyd y byddai cadw'r ganolfan hamdden hon ar agor yn tanseilio'r weledigaeth ar gyfer cyflawni yn y dyfodol fel y'i nodir yn y Strategaeth.

Gyda chymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr Arweinydd, gwahoddwyd y Cynghorydd K. Etheridge i siarad mewn perthynas â'r eitem hon.

Gofynnodd y Cynghorydd Etheridge am gadarnhad y gellid lleoli'r archebion presennol ar

gyfer defnyddio'r cyfleusterau ym Mhontllan-fraith yn Ysgol Uwchradd Islwyn neu Ysgol Gyfun Coed Duon. Cadarnhaodd swyddogion fod Cytundeb Defnydd Cymunedol ar gael ar gyfer defnyddio llain 3G yn Ysgol Gyfun Coed Duon ac felly gellir trosglwyddo archebion yn ôl y gofyn. Yn ogystal, mae Ysgol Uwchradd Islwyn wedi cadarnhau eu bod yn gallu derbyn archebion ar gyfer y neuadd chwaraeon, ac yn aros am fanylion pellach oddi wrth y Ganolfan Hamdden.

Cafwyd trafodaethau ynghylch y broses dendro ar gyfer dymchwel hen Ysgol Gyfun Pontllan-fraith a'r Ganolfan Hamdden ar y safle, a nodwyd bod y tendrau hyn bellach wedi dod i ben ac y bydd yn rhaid eu hail-dendro, fodd bynnag roedd sicrwydd gan y byddai'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei darparu maes o law.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Etheridge at adran 6.1 o'r adroddiad, a oedd yn cyfeirio at Dybiaethau a gofynnodd am eglurhad ar nifer o elfennau lle na ddarparwyd ffigyrau penodol. Esboniodd swyddogion fod nifer o ffactorau anhysbys, megis effaith Brexit, nad oes modd eu meintioli ond sydd angen eu cydnabod fel materion posibl.

Yn olaf, gofynnodd y Cynghorydd Etheridge i'r Cabinet ystyried a chefnogi argymhellion y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd, y ddeiseb a nifer o wrthwynebiadau gan drigolion lleol a gwrthod y cynnig i gau'r Canolfan Hamdden.

Gyda chymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr Arweinydd, gwahoddwyd preswylydd lleol, Ms J. Taylor, i annerch y Pwyllgor.

Cododd Ms Taylor nifer o bryderon ynglŷn â'r cynnig i gau'r Ganolfan Hamdden, a oedd yn cynnwys y gost o symud y Ganolfan Hamdden; ystyriaeth o ran Trosglwyddo Asedau Cymunedol y ganolfan hamdden; ymgynghori â phenaethiaid Ysgol Gyfun Coed Duon; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a phwysau ychwanegol ar wasanaethau; pa asesiadau effaith a wnaed; goblygiadau o ran cysylltiadau trafnidiaeth a bodloni anghenion a safonau defnyddwyr gwasanaeth. Ymdriniodd swyddogion â phob pryder a nodwyd nad oedd unrhyw gostau'n gysylltiedig â symud y safle, gan fod gwasanaethau eisoes ar waith mewn mannau eraill, roedd yr effaith fwyaf o ran defnydd yn ymwneud â'r ddarpariaeth lleiniau 3G, ond ymdriniwyd â'r anghenion hyn gyda'r gwaith o weithredu'r cae defnydd deuol yn Ysgol Gyfun Coed Duon, y gellir ei ddefnyddio ar gyfer gemau cystadleuol. Mewn perthynas â'r cyfeiriad at drosglwyddo asedau cymunedol posibl, cadarnhaodd swyddogion na chodwyd yr opsiwn hwn gan ymatebwyr yn ystod y prosesau ymgynghori ar gyfer cau Canolfan Hamdden Pontllan-fraith na'r Strategaeth Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden Egnïol

Cadarnhaodd swyddogion fod ymgynghori wedi digwydd gydag Ysgol Gyfun Coed Duon gyda phennaeth blaenorol a phennaeth cyfredol yr ysgol, ynghyd â'r corff llywodraethu, a oedd yn cefnogi'r cynigion, ac sydd wedi llofnodi'r Cytundeb Defnydd Cymunedol.

Sicrhawyd y siaradwr bod asesiadau effaith cydraddoldeb wedi cael eu cynnal ar gyfer cau Canolfan Hamdden Pontllan-fraith a'r Strategaeth Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden Egnïol 2019-2029, a rhoddwyd ystyriaeth i gysylltiadau trafnidiaeth a mynediad i ddefnyddwyr y ganolfan.

Yn olaf, ymdriniodd swyddogion â'r pryderon cyffredinol ynghylch colli'r ganolfan a thynnwyd sylw at y ffaith bod digon o ddarpariaeth amgen yn yr ardal, o ran campfeydd preifat, cyfleusterau hamdden a defnydd cymunedol o gyfleusterau ysgolion a chanolfannau cymunedol. Atgoffodd swyddogion y Cabinet fod chwaraeon a gwasanaethau hamdden yn wasanaethau dewisol.

Diolchodd Aelodau'r Cabinet i'r Siaradwyr a chafwyd trafodaeth. Nodwyd o ganlyniad i bwysau ariannol, nad yw penderfyniadau i gau gwasanaethau yn cael eu gwneud yn hawdd, ac mae'n ofynnol i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau o fewn cyllideb gytbwys. Fodd bynnag, mae'r Aelodau yn hyderus y bydd y Strategaeth Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden Egnïol 2019-2029 yn darparu gwasanaeth chwaraeon a hamdden i'r fwrdeistref sirol a all

ddarparu mwy o gyfleoedd gweithgareddau i fwy o bobl.

Cynhaliwyd trafodaethau o amgylch Canolfan Hamdden Heolddu, a adeiladwyd ar adeg debyg i Ganolfan Hamdden Pontllan-fraith ond a nodwyd fel safle strategol yn y Strategaeth. Cadarnhaodd swyddogion fod y model yn seiliedig ar nifer o ffactorau, sy'n cynnwys defnydd a lefel cyfleusterau yn y ganolfan, ac mae gan Heolddu yr ystod lawn ohonynt.

Mynegodd Aelod bryderon ynghylch y Cytundebau Defnydd Cymunedol ac a oedd modd cael mynediad i’r cyfleusterau drwy'r amser. Cadarnhaodd swyddogion fod Cytundeb Defnydd Cymunedol ar waith gydag Ysgol Gyfun Coed Duon a rhagwelir y gellir copïo hyn ar draws ysgolion eraill sydd â chyfleusterau mynediad cymunedol ar gyfer chwaraeon a hamdden.

Trafododd y Cabinet y prosesau ymgynghori ar gyfer cau Canolfan Hamdden Pontllan-fraith a'r Strategaeth Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden Egnïol 2019-2029 a chadarnhaodd y Swyddog Monitro y bu'r ddwy drwy broses ymgynghori cwbl ddigonol.

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch yr elfennau ariannol yn yr adroddiad a gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar sefyllfa bresennol y gyllideb. Esboniodd swyddogion, pe bai'r cau yn cael ei ohirio, y bydd yn ofynnol cael £28 mil ychwanegol ar gyfer y gyllideb costau rhedeg er mwyn cadw'r ganolfan hamdden ar agor. Yn ogystal, roedd y Ganolfan Hamdden wedi elwa’n flaenorol ar incwm trosglwyddiad cyd-ddefnyddwyr (ysgol) gwerth £26 mil, y byddai angen ei ail-osod hefyd. Nodwyd y byddai angen gwariant untro hefyd i gyfanswm o £112 mil ar gyfer dargyfeirio cyfleustodau, £150 mil mewn costau cynnal a chadw ar gyfer yr adeilad, a £200-£300 mil ar gyfer y llain 3G presennol, sy'n debygol o olygu y bydd angen ei gyfnewid mewn 2-3 mlynedd. Yn olaf gofynnwyd i'r Aelodau nodi ei bod yn ofynnol i'r Cyngor wneud arbedion refeniw pellach o £15 miliwn yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Cwestiynodd Aelod y gwahaniaeth rhwng lleiniau 3G yng Nghanolfan Hamdden Pontllan-fraith, Ysgol Gyfun Coed Duon ac Ysgol Uwchradd Islwyn. Esboniodd swyddogion fod nifer o wahaniaethau technegol; fodd bynnag, roedd yn allweddol nodi bod y cyfleusterau yn Ysgol Gyfun Coed Duon ac Ysgol Uwchradd Islwyn yn ddefnydd deuol sydd wedi'u gosod ar safonau'r IRB a safon Rheoliadau FIFA ill dau, gyda phad sioc o dan yr wyneb chwarae, gan alluogi rygbi a phêl-droed i gael eu chwarae'n gystadleuol. Bydd y lleiniau'n cael eu profi ddwywaith y flwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben ac yn cydymffurfio â'r safonau. Fodd bynnag, nodwyd bod Ysgol Gyfun Coed Duon yn addas ar gyfer pêl-droed cystadleuol uwch, ond bod angen rhwystrau wedi’u hôl-osod ar Ysgol Uwchradd Islwyn, sy'n cael ei hystyried.

Diolchodd yr Arweinydd i Swyddogion, y Cabinet, y Siaradwyr ac Aelodau o'r Cyhoedd am ddod i'r cyfarfodydd a dymunodd y byddai'n nodi bod penderfyniadau i gau cyfleusterau yn cael eu gwneud yn anfoddog er mwyn rheoli'r awdurdod yn unol â'r mesurau llymder sydd yn eu lle.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion, ac wrth nodi argymhellion y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd:
>
> i) y câi cynnwys yr adroddiad eu nodi; ac
>
> ii) i gytuno cau Canolfan Hamdden Pontllan-fraith erbyn 30ain Mehefin 2019 ac, ar gyfer y cyfnod hyd at ei gau, awdurdodir Swyddogion i flaenoriaethu'r broses o drosglwyddo archebion bloc presennol yng Nghanolfan Hamdden Pontllan-fraith i gyfleusterau amgen, er enghraifft Ysgol Gyfun Coed Duon ac Ysgol Uwchradd Islwyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:45pm.

Wedi'i gymeradwyo a'i llofnodi fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24ain Ebrill 2019.

________________________

CADEIRYDD